# Manyleb Person

| Rhif Swydd | S-NST-FL009/FL012/FLT15 | Dynodiad: | Ffitiwr Cerbyd Modur | Adran: | Gwasanaethau'r Amgylchedd a Thai |
|---|---|---|---|---|---|
| Adran: | Gwasanaethau Trafnidiaeth | Cwblhawyd Gan: | Gareth George | Dyddiad: | Mawrth 2017 |

Mae'r Fanyleb Berson yn amlinellu'r prif briodoleddau sydd eu hangen i gyflawni'r swydd hon yn foddhaol. Drwy lunio'r fanyleb, edrychwyd yn fanwl ar y disgrifiad swydd i amlygu'r elfennau hynny o'r swydd a ystyrir yn hanfodol.

Bwriad y Fanyleb Berson ydy rhoi dealltwriaeth well o ofynion y swydd i ddarpar ymgeiswyr. Fe'i defnyddir yn y broses recriwtio i adnabod a dewis ymgeiswyr. Dylech sôn am bob pwynt sydd yn y Fanyleb Berson, gan roi tystiolaeth o'ch sgiliau, eich profiad a'ch gwybodaeth sydd gennych yn yr ardaloedd hyn i gyd. Byddwch yn benodol bob amser Peidiwch â defnyddio ymadroddion cyffredinol megis "mae gennyf y sgiliau angenrheidiol..." neu "Rwy'n hyderus y gallaf wneud y swydd yn dda..." Bydd y panel dewis angen gwybod sut rydych yn bodloni'r meini prawf ar sail y dystiolaeth rydych yn ei rhoi.

| | | Hanfodol | Dymunol | Canfyddir trwy |
|---|---|---|---|---|
| 1. | **Profiad** | • Profiad o ofynion hanfodol wrth baratoi cerbydau at Ddosbarth 4, 5 a 7 a phrawf MOT HGV. | • Profiad o beirianneg amaethyddol a pheiriannau ysgafn. | Ffurflen gais a chyfweliad. |
| 2. | **Gwybodaeth** | | • Gwybodaeth am beirianneg amaethyddol a pheiriannau ysgafn. | Ffurflen gais a chyfweliad. |
| 3. | **Sgiliau a gallu** | • Medrus yn nisgyblaethau trwsio cerbydau nwyddau ysgafn a thrwm ac offer cynnal a chadw. | • Profiad blaenorol o amgylchedd garej trwsio cerbydau a gwybodaeth am systemau hydrolig a thrydanol cerbydau. | Ffurflen gais a chyfweliad. |

| | | Hanfodol | Dymunol | Canfyddir trwy |
|---|---|---|---|---|
| 4. | **Cymwysterau ac hyfforddiant** | • NVQ Lefel 3 neu Astudiaethau Parc 1, 2 a 3 neu Gyfatebol Crefft Cerbydau Modur/Trwm City and Guilds.<br>• Meddu ar dystysgrif prawf MOT VOSA ddilys. | • Tystysgrifau hyfforddiant galwedigaethol ychwanegol.<br>• Prawf MOT, neu'n barod i ennill tystysgrif profi (o fewn cyfnod o 12 mis) | Ffurflen gais a chyfweliad.<br>Tystiolaeth ddogfennol |
| 5. | **Agwedd ac ysgogiad** | • Rhaid gallu gweithio mewn tîm ac ar eich pen eich hun gyda'r ymrwymiad i roi gwasanaeth o safon. | • Gwybodaeth am y gwasanaeth a roddir gan Adrannau'r Cyngor. | Ffurflen gais a chyfweliad. |
| 6. | **Arall (manylwch)** | • Trwydded yrru lawn o leiaf Grŵp B.<br>• Gallu gyrru/teithio ar hyd a lled y Fro neu rhwng lleoliadau fel sy'n briodol. | • Trwydded yrru lawn â hawliad C+E | Ffurflen gais a chyfweliad.<br>Tystiolaeth ddogfennol |